Gwahaniaethu yn y carchar

Mae yn erbyn y gyfraith i'r carchar eich trin yn llai teg oherwydd:

- anabledd
- ailbennu rhyw
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- tueddfryd rhywiol.

Mae yna hefyd bolisi ysgrifenedig sy'n dweud y dylid trin yr holl garcharorion a 'u hymwelwyr yn barchus beth bynnag fo'u lliw, hil, crefydd, rhywioldeb neu anabledd, neu beth bynnag fo'u hoed, eu statws priodasol neu sifil.

Os na chewch eich trin yn gyfartal neu'n deg oherwydd un o'r pethau hyn, gelwir hyn yn wahaniaethu.

Dylai pawb yn y carchar hefyd gael mynediad cyfartal i gyfleusterau, gan gynnwys swyddi, addysg, gwasanaethau llyfrgell, ymarfer a llety.

Efallai fod yna adegau pan fydd carcharor neu ymwelydd yn teimlo fod yna wahaniaethu yn eu herbyn. Mae enghreifftiau yn cynnwys:

- staff y carchar yn dangos fod ganddynt ragfarn yn erbyn rhai carcharorion, megis pobol groenddu neu Sipsiwn, naill ai trwy'r hyn y byddant yn ei wneud neu yn ei ddweud. Mae yn erbyn y gyfraith i staff a charcharorion eraill i ddefnyddio iaith hiliol ac fe ellir eu disgyblu am hyn.
- os ydych yn anabl ac ni ddarperir cadair olwyn addas ar eich cyfer sy'n golygu na allwch gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau. Mae hyn yn erbyn y gyfraith.
- os ydych yn teimlo eich bod yn cael eich erlid oherwydd eich bod yn cefnogi carcharor arall gyda'i gwyn ynglŷn ag aflonyddu hiliol. Mae hyn yn erbyn y gyfraith.
- os ydych mewn gwrandawiad disgyblu. Allwch chi ddim deall Saesneg ac nid ydyw'r carchar yn darparu cyfieithydd ar eich cyfer.

Beth allwch chi ei wneud os cewch eich trin yn annheg

Os ydych chi'n meddwl eich bod chi neu'ch ymwelwyr yn cael eu trin yn annheg, gallwch chi siarad â swyddog y carchar yn anffurfiol am y broblem.

Os nad ydych yn hapus gyda'r canlyniad, gallwch chi ddefnyddio'r weithdrefn gwyno ffurfiol. Mae 3 cam i'r weithdrefn hon.

Rhaid i chi lenwi'r Ffurflen Cofnodi Digwyddiad Gwahaniaethu sydd ar gael ymhob

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

asgell. Bydd rheolwr yn eich cyfweld, yn archwilio'r mater a rhoi ymateb ysgrifenedig i chi. Os nad ydych yn hapus gyda'r canlyniad, gallwch chi apelio i uwch-reolwr y carchar. Os nad yw hyn yn eich bodloni, gallech gwyno yn uniongyrchol i'r Ombwdsmon Carchardai a Phrawf.

Achos Llys

Os ydych chi'n cael eich trin yn annheg, fe allech ystyried cymryd achos llys yn erbyn y carchar. Efallai y cewch chi iawndal. Mae angen i chi siarad ag ymgynghorydd arbenigol ynglŷn â sut i wneud hyn. Efallai y bydd cymorth cyfreithiol ar gael.

Cymorth ychwanegol

Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys unrhyw fath o broblem.

Mae rhai Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhedeg sesiynau cyngor yn y carchar. Os ydych yn y carchar, holwch os ydynt yn cynnig y sesiynau hyn yn eich carchar chi. Os nad ydynt yn rhedeg sesiynau cyngor, mae'n bosib i chi ysgrifennu at eich CAB lleol gan esbonio eich problem. Gofynnwch i aelod o staff y carchar am gyfeiriad eich CAB lleol.

Os nad ydych yn y carchar, ac rydych chi am ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy'r e-bost, cliciwch ar CAB agosaf neu chwiliwch o dan C yn eich llyfr ffôn.

Y Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS)
Blwch post 46199
Llundain
EC1M 4XA

Rhif ffôn: 020 7253 3323 / 0845 430 8923 (dydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener 9:30am – 1:00pm a 2:00pm – 5.30pm)
Ffacs: 020 7253 8067
E-bost: advice@prisonersadvice.org.uk
Gwefan: www.prisonersadvice.org.uk

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Carcharorion (PAS) yn darparu cyngor a gwybodaeth i garcharorion ynglŷn â'u hawliau fel carcharorion. Nid yw PAS yn delio â chamwedd neu apeliadau yn derbyn euogfarn neu ddedfryd.

Gwybodaeth arall ar Adviceguide a allai eich helpu

- Carcharorion- gwneud cwyn
- Gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred
- Cymryd camau oherwydd gwahaniaethu ar sail hil
- Cymryd camau oherwydd gwahaniaethu ar sail rhyw
- Gwahaniaethu ar sail anabledd
- Gwahaniaethu ar sail rhywioldeb

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 7 Rhagfyr 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - www.adviceguide.org.uk - lle gallwch lawr lwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr